Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth

Heol Jesse
Arberth
Sir Benfro
SA67 7FE

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Arberth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Arberth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol â dwy ffrwd |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 281 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 240 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 15 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 6.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 4.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.3% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/03/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth yn gymuned ddysgu hapus, anogol, ddwyieithog lle mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau. Mae disgyblion yn arddangos agwedd ragorol tuag at eu dysgu. O'r cychwyn yn y dosbarthiadau meithrin, mae disgyblion yn dod yn ddysgwyr annibynnol hyderus, sy'n rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion. Mae disgyblion yn datblygu medrau iaith cryf, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae staff yn rhoi pwyslais buddiol ar ddysgu am eu hardal leol yn Sir Benfro.

Mae staff yn defnyddio'r amgylchedd dysgu yn effeithiol, yn cynnwys yr ardaloedd dysgu yn yr awyr agored, i hyrwyddo medrau disgyblion. Mae disgyblion yn rhannu eu syniadau am beth yr hoffent ei archwilio ac yn gwybod bod athrawon yn ystyried eu safbwyntiau. Mae gan grwpiau llais y disgybl rôl bwysig ym mywyd yr ysgol, ac maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am bethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u dysgu.

Mae staff yn creu diwylliant darllen cryf ar gyfer disgyblion, ac maent yn cymryd pleser mewn llyfrau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen, gan siarad yn hyderus am y llyfrau maent yn eu mwynhau. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu eu safbwyntiau, gan arwain at eirfa gynyddol gyfoethog a helaeth wrth ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Mae medrau mathemategol a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda, ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn trwy weithgareddau a heriau diddorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall gwerth adborth sy'n cael ei ddarparu gan staff ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu eu syniadau a mireinio'u gwaith. Mae athrawon yn darparu lefel addas o her ar gyfer disgyblion yn eu dysgu, ac mae cyflymdra gwersi yn gadarn, ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae cyflymdra gwersi yn rhy araf i alluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf a chyson.

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod effeithiol sy'n cael ei chefnogi'n fedrus gan gorff llywodraethol diwyd ac arweinwyr a staff ymroddgar. Fel tîm, maent yn ymdrechu'n barhaus i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae eu gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn datblygu i fod yn unigolion hyderus mewn cymuned gefnogol ac anogol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Parhau i rannu'r arfer orau mewn addysgu ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth yn gymuned hapus, gynhwysol a dwyieithog lle mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion yn arddangos agwedd ragorol tuag at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud a rhoddir amser iddynt fyfyrio a meddwl yn annibynnol yn ystod cyfleoedd dysgu difyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn hyderus, yn trafod ystod eang o destunau ac yn mynegi eu barn o oedran cynnar.

### Ciplun: Dull cynhwysol o gefnogi datblygiad iaith yn y blynyddoedd cynnar

Mae staff yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn i gyd yn annog datblygiad disgyblion yn y Gymraeg yn ystod chwarae, ac wrth iddynt ddatblygu eu gwahanol fedrau. Mae hyn yn golygu bod cyfarwyddiadau dyddiol ar gyfer pob un o'r disgyblion yn cael eu rhoi trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n briodol. Mae'r dull hwn yn cefnogi disgyblion yn y ddwy ffrwd iaith i ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach o eiriau a phatrymau brawddeg syml yn Gymraeg yn effeithiol. Yn ystod gweithgareddau iaith penodol, mae staff yn defnyddio prif iaith y dosbarth, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn dibynnu ar y grŵp disgyblion. Mae'r dull hwn yn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o iaith ac yn eu hannog i fynegi eu hunain yn Gymraeg â hyder cynyddol.

Mae staff yn fodelau rôl effeithiol, ac maent yn trin pob un o'r disgyblion â pharch a thegwch. Mae strategaethau cadarnhaol, fel tystysgrifau gwobrau a 'Pwyntiau positif' yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol. Yn ystod gweithdai a gwasanaethau, mae staff yn cefnogi'r ethos gofalgar sy'n amlwg ar draws yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm hynod ddifyr sydd wedi'i seilio'n bennaf ar yr ardal leol, ac yn annog disgyblion i weld eu hunain yn ddinasyddion gwerthfawr eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae arweinwyr yn sefydlu dull effeithiol o ymgorffori syniadau disgyblion yn y cwricwlwm, gan roi perchnogaeth i ddisgyblion dros eu dysgu. Mae diwrnodau 'Lansio' a diwrnodau 'Glanio' yn galluogi rhieni i gymryd rhan mewn dathlu cyflawniadau eu plant. Mae  staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau buddiol a heriol. Ar draws yr ysgol, maent yn defnyddio dull 'Bant â'r cart', gan alluogi disgyblion i fagu hyder trwy weithio ar dasgau annibynnol, er enghraifft gwneud penderfyniadau am sut yr hoffent gyflwyno'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion, o oedran ifanc, yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd yr adborth maent yn ei gael gan gyfoedion a staff, a sut y gall eu helpu i fireinio'u gwaith a datblygu eu dysgu ymhellach.

Mae staff yn darparu cyfleoedd hynod effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen o oedran cynnar. Mae disgyblion hŷn yn trafod eu cariad am lyfrau a'r ffordd mae eu darllen yn eu helpu pan maent yn ysgrifennu mewn gwahanol gyd-destunau. Mae arweinwyr a staff yn cynnal prosesau asesu trylwyr sy'n eu helpu i gynllunio'n ofalus ar gyfer anghenion disgyblion unigol. Ar draws y dosbarthiadau a'r ystod oedran, mae adnoddau ar gael yn hwylus i ddisgyblion. Gyda'r disgyblion iau, mae staff yn darparu cyfuniad gwerthfawr o weithgareddau sy'n datblygu annibyniaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yn elwa'n fawr ar gyfleoedd i dreulio amser yn dysgu yn yr awyr agored, ac yn gweithio'n aeddfed gyda'u cyfoedion wrth fynd i'r afael â gwahanol dasgau diddorol.

Mae ffocws cyson athrawon ar lafaredd a darllen yn arwain at gyfleoedd difyr ar gyfer ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus, gan lunio ystod o adroddiadau, storïau a cherddi o ansawdd uchel. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau mathemategol a rhifedd da, ac mae staff yn darparu gweithgareddau ymestyn effeithiol i sicrhau her briodol. Mae disgyblion yn ymateb yn hyderus i gyfleoedd i gymhwyso'u medrau gan ddefnyddio offer a chymwysiadau digidol i gyflwyno'u dysgu. Mae medrau disgyblion yn datblygu'n dda, yn enwedig eu medrau codio, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn arloesi'n llwyddiannus wrth drafod sut orau i gyflwyno'u gwaith.

Mae athrawon yn defnyddio technegau holi effeithiol, ac mae cyflymdra gwersi yn briodol, ar y cyfan. Mae staff yn darparu gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ddewis lefel yr her sydd fwyaf priodol iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd adborth staff wrth iddynt ddatblygu a gwella'u gwaith. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae cyflymdra gwersi yn rhy araf ac nid yw'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cryf a chyson mewn dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd difyr i ddatblygu ystod eang o fedrau creadigol trwy waith celf, cerddoriaeth a dawns, diddorol. Mae ffocws cryf ar ddathlu amrywiaeth a phwysigrwydd pob plentyn yn datblygu fel aelod gwerthfawr o gymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus, ac mae disgyblion yn barchus ac yn garedig, o ganlyniad.

Mae staff yn darparu arlwy o ddarpariaeth hynod effeithiol a chynhwysol ar gyfer disgyblion ag ADY ar draws yr ysgol. Mae'r gofal mae staff yn ei ddarparu ar gyfer disgyblion a'r effaith a gaiff ar les disgyblion yn gryfder nodedig; er enghraifft mae'r ddarpariaeth anogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ac adeiladol rhwng y staff, asiantaethau allanol a theuluoedd i adolygu cynnydd disgyblion a chynllunio'r camau nesaf yn eu datblygiad.

Mae arweinwyr yr ysgol yn annog disgyblion i ddylanwadu'n bwrpasol ar fywyd yr ysgol trwy grwpiau amrywiol llais y disgybl. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau arwain effeithiol ac ymgymryd â chyfrifoldebau sydd wedi eu hanelu at ymestyn a gwella amgylchedd yr ysgol, yn ogystal â ffactorau eraill sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant gwrthfwlio effeithiol ar draws yr ysgol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel, yn cynnwys wrth weithio ar-lein. Mae'r ysgol yn cynnal systemau effeithiol ar gyfer monitro a chefnogi presenoldeb. Mae gan arweinwyr a staff berthynas gref a chefnogol â rhieni, ac ymagwedd gadarnhaol at herio presenoldeb gwael. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau presenoldeb rheolaidd ac effaith niweidiol absenoldebau rheolaidd o'r ysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel o bawb o fewn ethos gofalgar a chefnogol. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, a chorff ymroddgar o staff sy'n gweithio'n fedrus gyda'i gilydd. Ceir gwaith tîm effeithiol ar draws yr ysgol, ac mae staff ar bob lefel yn arddangos priodoleddau proffesiynol effeithiol yn gyson ac yn gosod esiampl dda ar gyfer disgyblion. Mae staff sydd â chyfrifoldeb am wahanol agweddau ar y cwricwlwm yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'u rolau. Maent yn ymgymryd ag ystod effeithiol o weithgarwch, gan annog datblygiad, cefnogi dysgu proffesiynol a monitro cynnydd. O ganlyniad, maent yn cyfrannu'n effeithiol at wella darpariaeth a chynnydd disgyblion.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn drylwyr ac yn ddiwyd yn eu hymagwedd at gefnogi'r ysgol ac mae eu rôl fel ffrind beirniadol wedi'i datblygu'n dda. Gallant roi mewnbwn ystyrlon i weithgarwch hunanwerthuso, ac o ganlyniad, maent yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella.

### Ciplun: Llywodraethwyr yn gweithio gydag arweinwyr i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer ysgol gynhwysol â dwy ffrwd

Caiff aelodau o'r corff llywodraethol eu cynnwys mewn sicrhau bod rhieni'n gallu dewis iaith y ddarpariaeth pan mae eu plant yn dechrau yn yr ysgol. Maent yn cefnogi gweledigaeth yr ysgol ar gyfer cymuned ddwyieithog gytbwys lle mae pob un o'r disgyblion a'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn annog cydweithio ar draws y ddwy ffrwd iaith, yn cryfhau perthnasoedd ac yn meithrin cysylltiadau cryf rhwng disgyblion, staff a'r gymuned ehangach.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon rannu arfer effeithiol ag ysgolion eraill, ac mae hyn yn ychwanegu at y diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol ac arloesi yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ddiwyd ac yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cymorth yr Awdurdod Lleol. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Maent

yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau penodol i gefnogi disgyblion, yn cynnwys lleihau effaith tlodi ar ddysgu a lles.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026